Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Talu am Ofal yng Nghymru: creu system deg a chynaliadwy

Ymgynghoriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn y Papur Gwyrdd

75% wedi'i ailgylchu
recycled

D3890809

Cysodwyd mewn teip 14pt

ISBN 978 0 7504 4930 4

CMK-22-04-045(140)

© Hawlfraint y Goron 2008

RHAGAIR - Y DIRPRWY WEINIDOG DROS IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae bron pob teulu yng Nghymru yn wynebu'r ffaith y gallai pobl fod angen gofal a chymorth oherwydd oed neu anabledd ar ryw adeg. O ganlyniad i rai newidiadau pwysig a fydd yn effeithio ar y system ofal dros y 15 i 20 mlynedd nesaf, mae angen i ni ystyried yn ofalus sut mae angen i'r system newid er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn y ffordd fwyaf priodol.

Fel cymdeithas, rydyn ni i gyd yn byw'n hirach ac mae hynny'n achos dathlu; ond mae hefyd yn golygu y bydd mwy a mwy o bobl angen gofal. Ymhen 20 mlynedd, bydd llawer mwy o bobl hŷn yn byw yng Nghrymu nag ar hyn o bryd, tra bydd nifer y bobl o oedran gweithio yn aros yn lled debyg. Mae ein hagweddau a'n disgwyliadau yn newid hefyd: rydyn ni'n mynnu gwasanaethau o safon uwch, a digon teg yw hynny.

Mae'r ddau ffactor hyn – mwy o bobl hŷn a llai o bobl o oedran gweithio ac yn talu trethi - yn golygu na fydd y system fel ag y mae hi yn fforddiadwy nac yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Felly mae angen i ni ddechrau trafod nawr sut y dylid diwygio'r system ar gyfer talu am ofal.

O'n rhan ni, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi cymryd camau mewn sawl maes i newid gwasanaethau gofal yng Nghymru. Er enghraifft, rydym yn cydnabod y gall y system bresennol ar gyfer codi tâl am ofal cymdeithasol dibreswyl fod yn ddryslyd. Mae'n arwain at wahaniaeth mawr rhwng y swm mae pobl mewn un ardal yn ei dalu o gymharu â phobl mewn sefyllfa debyg ac sydd ag anghenion tebyg sy'n byw yn rhywle arall. Rydym wedi defnyddio'n pwerau newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i gyrraedd y cam cyntaf wrth basio Mesur y Cynulliad a fydd yn gwneud y system hon o godi tâl yn decach yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau bod y tâl a godir am y gwasanaethau hyn yn decach ac yn fwy cyson.

Yn ein strategaeth "Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol", rydym yn amlinellu ein gweledigaeth am well gwasanaethau cymdeithasol dros y ddeng mlynedd nesaf. Rydym am sicrhau bod pobl yn cael gofal mwy hygyrch, personol yn gynharach gan eu cynorthwyo i gadw'u hannibyniaeth.

Fel rhan o'n gwaith i wireddu'r weledigaeth hon, byddwn yn cynnal adolygiad manwl yn ystod y 18 mis nesaf o'r adnoddau y bydd eu hangen i sicrhau gwasanaeth gofal cymdeithasol modern yng Nghymru. Ond, ar yr un pryd, rhaid i ni hefyd edrych ar sut y gellir gwella'r trefniadau cymhleth sydd gennym ar gyfer talu am ofal. Rydym am eu gwneud yn decach ac yn fwy fforddiadwy i unigolion, eu teuluoedd a'r llywodraeth. Mae angen ystyried pob math o ofal gwahanol - gofal cartref a dydd, gofal preswyl a nyrsio a gofal iechyd parhaus. Hefyd, mae angen i ni edrych ar swyddogaeth budd-daliadau, ac felly rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar yr agenda hon.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r heriau y mae angen i ni roi sylw iddynt. Mae'n gofyn cwestiynau pwysig o safbwynt egwyddor, fel sail ar gyfer trafodaeth agored a gonest. Maent y rhoi sylw i'n disgwyliadau ar gyfer gofal; sut dylid cydbwyso cyfrifoldeb dros

dalu am ofal rhwng unigolion, teuluoedd a'r wladwriaeth; a'r hyn rydyn ni'n barod i dalu am ofal a beth rydyn ni'n ei ddisgwyl yn ôl.

Dyma'ch cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth hollbwysig ynglŷn â sut y byddwn yn talu am ofal yn y blynyddoedd i ddod. Bydd Papur Gwyrdd i Gymru yn dilyn yn y gwanwyn ond rydym yn annog pawb i beidio ag aros tan hynny – ewch ati i gymryd rhan ym mhroses ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad nawr a manteisio ar y cyfle i edrych ar yr opsiynau a helpu i lunio'r trefniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer y dyfodol.

Gwenda Thomas AC

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad: hyd a lled y broses ymgynghori	Tudalen 1
Adran 2	Pwy sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar hyn o bryd?	Tudalen 3
Adran 3	Pam bod angen newid y system	Tudalen 5
Adran 4	Pa newidiadau eraill sydd i'r polisi gofal?	Tudalen 9
Adran 5	Sut mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd?	Tudalen 13
Adran 6	System decach ar gyfer talu am ofal	Tudalen 17
Adran 7	Pa gwestiynau sydd angen eu trafod?	Tudalen 21
Adran 8	Sut i ymateb a chyfrannu i'r broses ymgynghori hon	Tudalen 25

Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Mewn llawer o wledydd ledled y byd, mae Llywodraethau'n ystyried sut i drefnu ac ariannu systemau gofal a chymorth yn y dyfodol gan fod y boblogaeth yn prysur heneiddio. Dechreuodd y broses hon yng Nghymru y llynedd gyda chyhoeddi *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol* - Strategaeth ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r broses o newid yn parhau gyda'r ymgynghoriad hwn, sy'n sail i drafodaethau agored ynglŷn â sut rydym yn talu am ofal a sut ddylai hynny newid i ddiwallu anghenion y dyfodol.

1.2 Does dim dwywaith bod angen diwygio'r drefn o ariannu gofal. Mae gennym gyfran llawer uwch o bobl hŷn yng Nghymru eisoes o gymharu â gweddill y DU, a bydd llawer mwy o bobl yn byw'n hirach ac yn iachach dros yr 20 mlynedd nesaf. Er bod hyn yn achos dathlu, fe fydd hefyd yn golygu mwy o alw am wasanaethau a rhagor o bwysau arnynt. Rhagwelir bwlch ariannu sylweddol rhwng costau'r gwasanaethau gofal a'r arian sydd ar gael i dalu amdanynt. Yn naturiol, byddwn yn disgwyl derbyn gofal a chymorth o'r radd flaenaf wedi'i deilwra i'n hanghenion ni. Byddwn yn disgwyl i'n hannibyniaeth a'n hurddas gael eu diogelu. Bydd y ffactorau hyn yn cynnig sawl her gwirioneddol, a bydd angen mynd i'r afael â nhw i sicrhau system gofal fforddiadwy a chynaliadwy sy'n ateb ein dyheadau ni.

1.3 Ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, bu cryn drafodaeth frwd a bywiog ynglŷn â'r angen i ailystyried y broses o dalu am ofal. Mae cyfiawnder, cymhlethdod a thegwch y trefniadau cyfredol wedi'u rhoi dan y chwyddwydr. Bu rhywfaint o gynnydd eisoes, gan gynnwys buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad i ddiogelu sefyllfa pobl ar incwm isel sy'n gorfod talu am ofal yn y cartref. Mae'r broses o gyflwyno deddfwriaeth bellach yn y maes hwn eisoes ar waith.

1.4 Mae pynciau trafod yr ymgynghoriad hwn yn eang iawn. Bydd angen inni ystyried nifer o faterion sydd wedi'u datganoli fel:

- gofal parhaus;
- gofal nyrsio wedi'i ariannu gan y GIG;
- gofal preswyl a;
- gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref.

Bydd angen cwmpasu rhai materion heb eu datganoli hefyd, fel y system fudd-daliadau.

1.5 Oherwydd hyn, bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn gyfochrog â'r un yn Lloegr, er na fyddant union yr un fath. Mae cysylltiadau cryf iawn rhwng y materion hyn ac ni ellir eu hystyried ar wahân wrth benderfynu sut i dalu am ofal. Mae angen datrys materion anodd iawn ac nid oes atebion hawdd ar gael. Mae'r drafodaeth ar dalu am ofal ymhlith y pwysicaf i'w cynnal ers blynyddoedd lawer. Felly, mae'n hollbwysig fod cynifer o bobl ag sy'n bosibl – o bob oed a chefndir – yn cael cyfle i ddweud eu dweud. Byddwn yn cyflawni hyn mewn sawl ffordd, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'n bwysig peidio ag ystyried y mater hwn fel un i bobl hŷn yn unig.

1.6 Mae'r materion sy'n cael eu trafod yn eithaf eang ar hyn o bryd a'r nod yw pennu'r egwyddorion a'r amcanion cyffredinol a fydd yn llywio Papur Gwyrdd manylach. Bwriadwn gyhoeddi'r Papur Gwyrdd yng Nghymru yn ystod gwanwyn 2009.

Adran 2: Pwy sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar hyn o bryd?

2.1 Mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn helpu dros 150,000 o bobl yng Nghymru ar hyn o bryd. Caiff tua £1.3 biliwn o arian cyhoeddus ei wario ar y gwasanaethau hyn sy'n cyflogi 70,000 o bobl. Mae oddeutu 1,800 o sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn darparu gwasanaethau ym mhob cwr o'r wlad. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn rhan hollbwysig o fywydau llawer o bobl Cymru o bob oed. Maen nhw'n:

- hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol;
- helpu pobl sy'n sâl, yn fregus, mewn gofid neu'n wynebu anawsterau; ac
- yn diogelu pobl rhag cael eu niweidio, eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

2.2 Efallai y bydd unrhyw un ohonom angen gofal a chymorth ar ryw adeg o'n bywydau. Y mathau o bobl sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru yw:

- pobl sydd wedi cael damwain;
- pobl â salwch hirdymor;
- pobl anabl; neu
- bobl hŷn.

2.3 Ein gweledigaeth ni yw gwasanaethau cymdeithasol cadarn, hygyrch ac atebol sy'n bodloni gofynion dinasyddion a chymunedau ac sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, hawliau'r dinasyddion a chanlyniadau da. Hoffem weld y weledigaeth hon yn cael ei chyflwyno mewn modd effeithiol, hyblyg a chydgysylltiedig, ar y cyd â'r defnyddwyr gwasanaethau, a hynny i'r safonau uchaf posibl ledled Cymru.

2.4 Dylai pobl gael cymorth i reoli'u ffordd o fyw, waeth pa namau neu anawsterau sydd ganddynt. Mae gan bobl yr hawl i dderbyn gwasanaethau sy'n eu helpu i wneud y gorau o'u gallu, eu diogelu rhag drwg ac sy'n cynnig dewisiadau iddynt. Rydym wedi seilio'n gweledigaeth ar y model cymdeithasol o anabledd sy'n hyrwyddo hawliau, cydraddoldeb a dewis i bawb sy'n anabl.

Ffeithiau allweddol

- mae tua 81,000 o bobl yn derbyn gofal cymdeithasol wedi'i ariannu gan awdurdodau lleol. O'r rhain, mae rhyw 67,000 yn derbyn gofal yn y gymuned a 15,000 yn cael gofal preswyl. Mae 12,000 o bobl eraill yn derbyn gofal nyrsio wedi'i ariannu gan y GIG;

- mae tua 59,000 (73%) o'r defnyddwyr dros 65 oed, gyda'r rhan fwyaf yn derbyn gofal oherwydd anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau;

- mae dros 123,000 o bobl yn derbyn y Lwfans Gweini yng Nghymru;

- mae tua 6,000 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, gwerth £40 miliwn, yn

cael eu talu er mwyn addasu cartrefi yng Nghymru bob blwyddyn;

- mae tua 2,000 o bobl yn cael cymorth y Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru, sef £455 yr wythnos ar hyn o bryd;

- mae bron i 32,000 o bobl yn derbyn Lwfans Gofalwyr yng Nghymru, sef £50 - £55 yr wythnos ar hyn o bryd;

- mae tua 41,000 o bobl Cymru yn cael gwasanaethau gofal yn y cartref neu wasanaethau gofal dydd ar hyn o bryd.

Adran 3: Pam bod angen newid y system

3.1 Mae'r angen am ofal a chymorth oherwydd oedran neu anabledd yn ffaith sydd wedi neu'n mynd i effeithio ar bron pob teulu yng Nghymru ar ryw adeg. Mae tystiolaeth gan y Kings Fund (2006) ac eraill yn dangos bod y system gofal yn wynebu sawl her yn sgil:

- newid demograffig, wrth i fwy o bobl fyw'n hirach ond gyda salwch ac afiechydon am gyfnodau hwy;
- disgwyliadau uwch o ran safon y gwasanaeth;
- newidiadau ym mhatrymau strwythur cymdeithasol (teuluoedd ar wasgar, mwy o bobl sengl, a mwy o gysylltiadau teuluol amrywiol wrth i bobl briodi am yr ail neu'r trydydd tro) a chyflogaeth, sy'n golygu bod llai o ofalwyr di-dâl ar gael – gan roi rhagor o bwysau ar wasanaethau gofal cyhoeddus;
- cyflwyno amrywiaeth o wasanaethau gofal newydd a drutach – gan gynnwys ymyriadau cynharach a gwasanaethau sy'n defnyddio technoleg newydd;
- bwlch ariannu o £6 biliwn rhwng costau gwasanaethau gofal a'r adnoddau sydd ar gael i dalu amdanynt mewn 20 mlynedd yn y DU.

Yn fwy cyffredinol, mae Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dod i'r casgliad fod gwir angen gwella'r ffordd o drefnu a darparu gwasanaethau oherwydd y newidiadau demograffig a'r newidiadau cymdeithasol hyn a'r disgwyliadau uwch o ran safon gwasanaethau.

Tueddiadau demograffig

3.2 Bydd goblygiadau pwysig ar gyfer y galw am wasanaethau gofal yng Nghymru, wrth i'r cyfraddau ffrwythlondeb ostwng islaw'r lefel lle mae'r boblogaeth yn aros yn gyson, ynghyd â'r ffaith y bydd pobl yn byw'n hirach. Amcangyfrifir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu 5.1% i 3.14 miliwn erbyn 2018. Rhagwelir y bydd nifer y plant yn gostwng 6.0% yn ystod yr un cyfnod, tra bydd nifer y bobl dros 85 oed yn cynyddu 29.2% o 72,000 yn 2008 i 93,000 yn 2018. Amcangyfrifir y bydd nifer y bobl 65 i 84 oed yn cynyddu 24%.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y newidiadau demograffig rhagamcanol ledled y grwpiau oedran yn fanylach.



Amrywiadau amcanol yn y niferoedd yn ôl grŵp oedran	Plant	19-64 oed	65-84 oed	85+ oed	Cyfanswm
2008	673,000	1,778,000	469,000	72,000	2,992,000
2018	669,000	1,800,000	582,000	93,000	3,144,000

Ffeithiau allweddol

- ar ôl troi'n 65 oed bydd tua thraean y ddynion a hanner o menywod angen gofal a chymorth tymor hir wrth iddynt heneiddio;

- ar sail cyfraddau defnyddwyr gwasanaethau cyfredol, rydym yn disgwyl y bydd bron i 96,000 o bobl dros 65 oed yng Nghymru angen cymorth gwasanaethau gofal cymdeithasol erbyn 2031;

- mae'r boblogaeth yn heneiddio. Yn yr 20 mlynedd nesaf, bydd nifer y bobl dros 80 oed yng Nghymru yn dyblu i 137,000 a nifer y bobl dros gant oed yn cynyddu pedair gwaith i dros 2,000;

- ers 1981, mae disgwyliad oes pobl 65 oed wedi cynyddu 4.9 mlynedd ar gyfer dynion a bron i 3.3 mlynedd ar gyfer menywod yng Nghymru;

- mae nifer y bobl o oedran gweithio o gymharu â rhai dros 65 oed eisoes wedi gostwng o 5.3 i 1 ym 1951 i 3.6 i 1 yn 2007;

- amcangyfrifir y bydd cyfran y bobl 65+ oed o gymharu â phobl 20-64 oed yng Nghymru yn cynyddu o 40% i 64% erbyn 2031.

Gofalwyr

3.3 Roedd Cyfrifiad 2001 yn dangos bod bron i 340,000 o ofalwyr yng Nghymru (mwy na 1 o bob 9 o'r boblogaeth). O'r rhain, mae dros 89,000 yn gofalu am fwy na 50 awr yr wythnos.

- cyfran uwch o ofalwyr nag unrhyw ranbarth o Loegr (11.8% neu 339,833 o ofalwyr);
- y gyfran uchaf o bobl â salwch cyfyngus hirdymor (23.3%); a
- lefel salwch ac anabledd parhaol ymhlith y boblogaeth economaidd anweithgar 16-74 oed yn uwch nag unrhyw ranbarth o Loegr (9.2%).

3.4 Gofalwyr di-dâl sy'n darparu tua 70% o ofal yn y gymuned. Er hynny, mae'r newid demograffig a ragwelir yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf yn awgrymu bod nifer y gofalwyr posibl yn debygol o leihau, tra bod y nifer sydd angen gofal yn cynyddu. Rydym eisoes yn gwybod bod y rhai sydd angen gofal yn debygol o fyw'n hirach, felly mae angen ailystyried a fydd eu gofalwyr yn gallu ac yn barod i ofalu am gyfnod hirach heb gymorth na chefnogaeth ychwanegol.

Ffeithiau allweddol

Erbyn 2018, rydym yn disgwyl gweld:

- mwy o alw am gymorth a gwasanaethau i bobl ag anghenion gofal uchel, dros gyfnodau hirach – gan gynnwys mwy o bobl â dementia a mwy o bobl ag anabledd dysgu yn byw y tu hwnt i allu'u rhieni i ofalu amdanynt, a 10% yn fwy o bobl ag anabledd dysgu difrifol yn parhau i fyw gyda'u teuluoedd yn hytrach na symud i lety preswyl;

- mwy o bobl canol oed (rhwng 50 a 60 oed) yn darparu gofal anffurfiol, er bod y ffaith fod mwy o fenywod yn gweithio am dâl a bod pobl yn gweithio yn hwyrach yn eu bywydau yn gwrthbwyso hyn – gan ysgwyddo cymaint o ddyletswyddau gofal ag y gallent fel arall;

- mwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain, yn enwedig dynion hŷn; a llawer mwy o alw am wasanaethau gan bobl dros 85 oed**.**

Adran 4: Pa newidiadau eraill sydd i'r polisi gofal ar hyn o bryd?

4.1 Mae'n rhaid ystyried sut mae mynd ati i ganfod ffordd well o dalu am ofal yng nghyd-destun y gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu a sut maent yn cael eu gwella. Dyma rai o'r prif ddatblygiadau:

Gwasanaethau Cymdeithasol

4.2 Mae newidiadau demograffig a chymdeithasol yn creu rhagor o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol, a bydd hwn yn cynyddu ynghyd â disgwyliadau uwch o ran safon gwasanaethau. Mae Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, '*Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol',* yn pwysleisio'r angen am wasanaethau sy'n cael eu darparu i'r un safonau uchel ledled Cymru ac sy'n sicrhau bod pobl yn cadw'u hannibyniaeth.

4.3 Nod y Strategaeth yw gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr fel a ganlyn:

- asesu'n well fel bo'r gwasanaethau'n canolbwyntio ar y bobl sy'n eu defnyddio;
- arweiniad gwell, ac atebolrwydd ar lefel wleidyddol ac uwch reolwyr;
- safonau perfformiad a chanlyniadau newydd i hyrwyddo gwelliannau parhaus;
- trefniadau comisiynu gwell fel bod awdurdodau lleol yn helpu i lywio yn hytrach na dilyn y farchnad gymysg o ofal?
- partneriaethau gwell fel bod awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau'n well mewn partneriaeth ag awdurdodau a sefydliadau eraill;
- mynd ati i ddatblygu gweithlu digonol a medrus sy'n cael ei werthfawrogi a fydd yn cael y dylanwad mwyaf ar y rhai sy'n derbyn gwasanaethau, a'u gofalwyr.

4.4 Mae'r Strategaeth hefyd yn ymrwymo i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ofynion ariannu gofal cymdeithasol dros y degawd nesaf. Bydd yr adolygiad yn archwilio beth fydd goblygiadau ariannol y newidiadau demograffig a chymdeithasol ar gyfer gofal cymdeithasol yn sgil cyflwyno modelau gofal newydd. Bydd yn ceisio nodi'r adnoddau ariannol a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i sicrhau bod unigolion yn gallu cael gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf fel bo'r angen. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ar dalu am ofal hefyd yn cael eu defnyddio i lywio'r adolygiad ariannu.

Gofalwyr

4.5 Roedd *Strategaeth Gofalwyr Cymru: Cynllun Gweithredu 2007* Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno cyfres o fesurau a oedd eu hangen i gynorthwyo gofalwyr gyda'u dyletswyddau gofal a'u helpu i ofalu am eu hiechyd eu hunain. Mae hefyd yn ceisio ymdrin ag effeithiau'r newidiadau demograffig a'r patrwm cynyddol o deuluoedd ar wasgar. Ar ben hynny, mae dogfen *Cymru'n Un* Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys ymrwymiad i gael cymhwysedd deddfwriaethol a deddfu i gefnogi gofal gan ofalwyr a hyrwyddo eu lles nhw.

Gofal Parhaus

4.5 Rydym yn adolygu'r Fframwaith Cenedlaethol er mwyn cynnig canllawiau a fydd yn helpu i wneud penderfyniadau ar ddarparu gofal parhaus y GIG i oedolion. Bydd trefniadau newydd i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys gweithdrefnau cwynion ac anghydfod. Bydd pecyn cymorth i wneud penderfyniadau yn cyd-fynd â'r fframwaith hwn, gyda'r nod o geisio sicrhau dull mwy cyson o ddehongli'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Tai

4.6 Trwy ddarparu gwasanaethau cymorth o'r radd flaenaf a thai addas, wedi'u haddasu fel bo'r angen, bydd pobl yn gallu byw'n annibynnol am gyfnod hirach. Mae gwella tai pobl anabl a hŷn yn gallu golygu'r gwahaniaeth rhwng parhau i fyw'n eu cartrefi eu hunain neu orfod symud i gartref gofal. Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n paratoi Strategaeth Tai ar gyfer Pobl Hŷn.

4.7 Mae Tai Gofal Ychwanegol yn rhoi mwy o gymorth na thai gwarchod traddodiadol, ac yn cynnig mwy o annibyniaeth hefyd. Mae'n cynnwys tai sy'n cynnig llety i'w rentu, ei brynu dan gynllun soddgyfran neu'i brynu'n llawn, gyda chyfleusterau cymunedol ar y safle. Mae gofal a gwasanaethau cymorth ar gael gan dîm sy'n gweithio ar y safle ac mae hyn yn cynyddu gallu pobl i fod yn annibynnol ac aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r tai hyn ar gael i bobl sy'n gallu symud a rhai bregus hefyd. Mae awdurdodau lleol a'r sectorau preifat a gwirfoddol yn parhau i ddatblygu cynlluniau Gofal Ychwanegol ac mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfrannu £21m y flwyddyn tuag at y datblygiadau hyn.

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a'r Rhaglen Addasiadau Brys

4.8 Dyma gymorth i helpu gyda chostau addasu cartrefi pobl anabl neu bobl hŷn, naill ai fel nad oes raid iddynt fynd i'r ysbyty neu symud i ofal preswyl, neu fel bod modd i gleifion adael yr ysbyty'n gynt. Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi'u hariannu ledled Cymru ac yn helpu pobl hŷn ac anabl i barhau i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, mor annibynnol â phosibl, trwy roi gwybodaeth am ddewisiadau sy'n gallu gwella diogelwch, cysur a chyfleustra. Maent yn cyfuno'r arian a'r arbenigedd angenrheidiol i wneud gwaith trwsio, addasu a/neu wella hanfodol fel y gall pobl hŷn neu anabl barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain.

Cefnogi Pobl

4.9 Mae'r fenter Cefnogi Pobl yn helpu pobl agored i niwed i fyw'n annibynnol a chynnal eu tenantiaeth trwy roi cymorth ym maes tai. Mae'r math o gyngor yn dibynnu ar anghenion unigol, ond gallai gynnwys: cyngor a chymorth gyda chyllidebu a thalu biliau; cymorth i feithrin sgiliau coginio a glanhau; gwasanaeth eirioli a chymorth i chwilio am gymorth arbenigol eraill. Mae'r gwasanaethau hyn yn gallu osgoi neu ohirio'r angen am wasanaethau cymorth drutach, fel cymorth cartref preswyl neu gartref nyrsio, neu gyfnod yn yr ysbyty.

Rhyddhau Ecwiti

4.10 Mae ‘rhyddhau ecwiti’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r ffyrdd gwahanol y gall pobl hŷn sy’n berchen ar dai ddefnyddio eu heiddo i gael gafael ar, rhyddhau neu greu incwm neu symiau cyfalaf tra maent yn parhau i fyw yno. I bob pwrpas, mae’n troi gwerth y cartref yn incwm neu arian parod, os nad oes morgais ar yr eiddo. Mae rhyddhau ecwiti yn cael ei ystyried yn un o’r dewisiadau amrywiol i dalu am waith trwsio angenrheidiol ac fel ffynhonnell fuddsoddi hefyd. Er bod hyn i’w groesawu, mae’n bwysig fod cleientiaid posibl yn deall y cynlluniau hyn ac yn hollol ymwybodol o oblygiadau cael benthyciad o’r fath. Mae strategaeth tai Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cefnogi’r gwaith o adnewyddu cartrefi pobl anabl a phobl hŷn, a gellid ariannu’r gwaith hwn trwy gynlluniau rhyddhau ecwiti.

Taliadau Uniongyrchol

4.11 Mae Taliadau Uniongyrchol yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran diwallu anghenion gofal asesedig, gan y gall awdurdodau lleol roi arian parod i unigolion allu prynu eu gwasanaethau gofal/cymorth eu hunain yn uniongyrchol. Mae’r Cynllun Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru yn cael ei reoli gan bob awdurdod lleol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyfrannu tua £1.5 miliwn y flwyddyn i awdurdodau lleol y wlad er mwyn eu helpu i dalu costau ychwanegol y cynllun gan gynnwys cyflwyno cynlluniau cymorth taliadau uniongyrchol lleol. Rydym hefyd yn parhau i asesu’r dystiolaeth o gynlluniau peilot cyllidebau unigol/personol yn Lloegr a threfniadau manylach y cynllun wrth iddynt gael eu datblygu a’u rhoi ar waith.

Adran 5: Sut mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd?

5.1 Os yw'n ymddangos fod rhywun angen gofal, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu eu hanghenion gofal a phenderfynu a ddylent ddarparu gwasanaethau gofal iddynt ai peidio. Byddant yn gwneud hyn yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth y Cynulliad, "Creu System Deg ac Unedig i Asesu a Rheoli Gofal". Dyma asesiad iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd sy'n nodi anghenion rhywun sydd angen cymorth a sut i ddiwallu'r anghenion hynny. Yng Nghymru, y byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am asesu anghenion iechyd a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu anghenion gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol asesu anghenion gofalwyr yn ôl yn gyfraith a phenderfynu a ydynt am ddarparu gwasanaethau gofal iddynt.

Gofal Iechyd Parhaus

5.2 Bydd unigolyn yn cael gofal iechyd hirdymor gan y GIG os oes ganddo anghenion mor sylweddol, cymhleth, difrifol neu anrhagweladwy fel bod angen i'r GIG eu rheoli. Cyfeirir at hyn fel "gofal iechyd parhaus" ac fe'i asesir ar sail meini prawf y byrddau iechyd unigol, wedi'u seilio ar ganllawiau Llywodraeth y Cynulliad. Gellir cael gofal iechyd parhaus mewn ysbyty, cartref gofal sydd wedi'i gofrestru i roi gofal nyrsio, neu yng nghartref yr unigolion ei hun. Bydd y GIG yn talu costau gofal yn llawn; ac yn talu costau llety hefyd os yw'r unigolyn mewn ysbyty neu mewn cartref gofal â gofal nyrsio. Os darperir gofal mewn cartref gofal, bydd y bwrdd iechyd lleol yn talu arian yn uniongyrchol i'r cartref hwnnw.

Gofal Nyrsio

5.3 Os nad yw rhywun yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus ond ei fod angen gofal gan nyrs gofrestredig mewn cartref gofal, bydd y GIG yn gwneud cyfraniad wythnosol (£117 ar hyn o bryd) tuag at gostau gofal nyrsio. Dylai nyrs gofrestredig fynd ati o leiaf unwaith y flwyddyn i asesu anghenion rhywun sy'n derbyn gofal nyrsio wedi'i ariannu gan y GIG, i weld a ydyw angen gofal nyrsio o hyd. Bydd yr asesiad hwn hefyd yn nodi pryd y gall unigolyn fod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus. Mae agweddau eraill ar anghenion gofal a llety unigolion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r system a ddisgrifir yn y paragraffau canlynol.

Gofal Preswyl

5.4 O ran gofal cymdeithasol preswyl hirdymor, mae'n rhaid i awdurdodau lleol godi tâl am y gofal personol/cymdeithasol (fel cymorth i ymolchi, bwyta a symud) a'r llety a ddarperir ganddynt, yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn ofynnol ers 60 mlynedd.

5.5 Bydd yr awdurdod lleol yn asesu gallu'r unigolyn i dalu am ei ofal ei hun. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno canllawiau i sicrhau bod y costau y mae'n rhaid i bobl eu talu mor gyson â phosibl. Dan y canllawiau hyn, caiff cyfraniad yr unigolion tuag at y costau llety a gofal ei asesu trwy ystyried eu hincwm (gan

gynnwys y rhan fwyaf o fudd-daliadau a phensiynau) a'u cyfalaf (fel cynilion, buddsoddiadau a gwerth unrhyw eiddo sydd ganddynt).

- os oes gan yr unigolion fwy na £22,000 o gyfalaf, disgwylir iddynt dalu'u costau llety a gofal yn llawn (hynny yw, ariannu eu hunain);

- os oes ganddynt rhwng £19,000 a £22,000 o gyfalaf, byddant yn cyfrannu at eu gofal yn ôl graddfa symudol;

- os oes ganddynt £19,000 neu lai o gyfalaf, bydd unigolion yn cael cymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol tra'n cyfrannu faint bynnag o incwm maent yn ei dderbyn, fel sy'n briodol.

Dewis

5.6 Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod unigolyn yn rhydd i ddewis ble i gael gofal preswyl, cyn belled â bod yr awdurdod lleol yn ariannu'r unigolyn hwnnw ac yn gyfrifol am ei roi mewn gofal preswyl. Mae gan unigolyn yr hawl i ddewis llety drutach, llety o safon uwch neu wasanaethau ychwanegol sy'n costio mwy na'r hyn y byddai'r awdurdod yn ei wario fel arfer. Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i drydydd parti (fel aelod o'r teulu, ond nid yr unigolyn ei hun) gytuno i dalu'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y byddai'r awdurdod lleol yn ei dalu i ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn a chostau'r llety drutach. Taliad atodol trydydd parti yw hwn.

Taliad wedi'i ohirio

5.7 Mae eiddo'r preswylydd yn rhan o asesiad o allu'r unigolyn i gyfrannu at gostau gofal preswyl, os nad yw gŵr/gwraig, partner neu berthynas dibynnol yr unigolyn yn byw yno. Er hynny, nid yw'r eiddo hwnnw'n cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad yn y 12 wythnos gyntaf - rhag ofn mai arhosiad dros dro yn unig ydyw; neu er mwyn rhoi cyfle i'r preswylydd baratoi i werthu neu gael incwm o'i gartref pe bai'n cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad ariannol i gefnogi arhosiad parhaol.

5.8 Gellir cynnig cynllun taliadau gohiriedig i unigolion nad ydynt eisiau neu nad ydynt yn gallu gwerthu eu cartref, unwaith y daw'r cyfnod o 12 wythnos i ben. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr awdurdod lleol yn rhoi arwystl cyfreithiol ar eiddo'r unigolyn ac yn talu costau llety a gofal preswyl yr unigolyn hwnnw yn ystod cyfnod y cynllun. Pan gaiff yr eiddo ei werthu maes o law (nid o anghenraid yn ystod oes yr unigolyn), yna bydd yr awdurdod yn adennill yr arian a wariodd ar gostau gofal o elw'r gwerthiant hwnnw.

Treuliau Personol

5.9 Mae preswylwyr cartrefi gofal, sy'n cael eu hariannu gan awdurdodau lleol, yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'u hincwm i'w ffioedd gofal. Caiff cyfraniadau'r preswylwyr eu hasesu fel y disgrifir uchod, ond maen nhw'n cael cadw rhywfaint o arian i'w wario eu hunain, ar eitemau fel dillad, anrhegion bach, trin gwallt a deunyddiau ysgrifennu. Ni ddylid gwario'r un geiniog ohono ar ofal y mae'r awdurdod lleol wedi gwneud contract ar ei gyfer. Lwfans Treuliau Personol yw'r enw ar y swm hwn. Fel arfer, mae'r Lwfans hwn yn cynyddu bob blwyddyn i adlewyrchu cynnydd mewn enillion cyfartalog. £21.38 yr wythnos yw'r Lwfans ar hyn o bryd.

Gofal Cartref a Gwasanaethau Personol

5.10 Mae'r system codi tâl am wasanaethau gofal a chymorth cartref (sef 'gofal cartref') yn gweithredu mewn ffordd wahanol i'r system gofal preswyl. Does dim rheoliadau cenedlaethol ynglŷn â chodi tâl, a heblaw am ychydig o ofynion statudol i amddiffyn pobl ar incwm isel, mae gan awdurdodau lleol rwydd hynt i benderfynu a ydynt am godi tâl a faint i'w godi. Ar ôl i'r unigolyn gyfrannu at gost ei ofal, mae'r canllawiau statudol yn mynnu bod yr incwm sydd ganddo'n weddill bob wythnos yn cyfateb i'r cymhorthdal incwm, ynghyd â 35% ychwanegol. Mae gan bobl yr hawl i gael 10% arall o'u hincwm wedi'i eithrio o'r asesiad er mwyn helpu i dalu costau byw ychwanegol yn sgil anabledd neu gyflwr iechyd.

5.11 Diolch i'r system hon, nid yw dros hanner y defnyddwyr gofal cartref a oedd yn gymwys i dalu costau wedi gorfod cyfrannu at gost eu gofal. Codir tâl ar lefelau gwahanol ar ddefnyddwyr gwasanaethau gofal cartref sy'n dal i orfod talu, yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw. Er enghraifft, mae'r uchafswm wythnosol a godir yn amrywio o £16 yr wythnos i £180 yr wythnos am yr un gwasanaeth mewn gwahanol rannau o Gymru. Yn ddiweddar, llwyddodd Llywodraeth y Cynulliad i gyrraedd carreg filltir bwysig yn y gwaith o greu deddfwriaeth newydd a fyddai'n ei galluogi i fynd i'r afael â'r mater trwy greu dull mwy teg a chyson o godi tâl ledled Cymru.

5.12 Mae Llywodraeth y DU yn cynnig amryw o fudd-daliadau - fel y Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwyr, Lwfans Byw i'r Anabl a'r Gronfa Byw'n Annibynnol - sy'n helpu unigolion i fyw'n annibynnol, yn aml gyda chymorth perthnasau a ffrindiau sy'n gofalu amdanynt.

Ffeithiau Allweddol

- Llywodraeth leol sy'n bennaf gyfrifol am ariannu gofal cymdeithasol. Mae'r cymorth ariannol gan y Llywodraeth ganolog i awdurdodau lleol wedi cynyddu £1.2 biliwn (29%) mewn termau real o 1997/98 to 2007/08.

- Mae gofal preswyl i bobl hŷn yn costio rhwng £322 a £372 yr wythnos ar gyfartaledd. Mae gofal nyrsio mewn cartref gofal i bobl hŷn yn costio rhwng £484.55 a £592 yr wythnos ar gyfartaledd.

- Mae'r Lwfans Gweini wythnosol yng Nghymru – budd-dal sy'n helpu i dalu costau anabledd yn ddiweddarach ym mywyd yr unigolyn – wedi cynyddu £1.5 miliwn mewn termau real ers 2002.

- Roedd adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg ynglŷn â chartrefi gofal I bobl hŷn yn y DU yn nodi fod traean o'r rhai sy'n derbyn cymorth ariannol gan awdurdodau lleol hefyd yn dibynnu ar gymorth atodol gan drydydd partïon.

Adran 6: System decach ar gyfer talu am ofal

6.1 Mae'r system bresennol o wneud asesiad ariannol o bobl sydd angen gofal a chymorth yng Nghymru wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer. Er bod datblygiadau a gwelliannau wedi'u cyflwyno dros amser, mae'r fframwaith cyfredol yn deillio o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 (fel y'i diwygiwyd).

6.2 Roedd gwaith ymchwil gan y Sefydliad Joseph Rowntree yn 2005 ac eraill yn dangos bod gwendidau yn y system a bod angen ei diwygio, yn enwedig yn sgil y newidiadau demograffig a'r tueddiadau eraill a nodwyd yn Adran 3. Mae rhai o'r problemau'n cynnwys:

- Mae'n gymhleth.
- Anodd deall a dilyn y system.
- Diffyg cydgysylltiad rhwng y categorïau gofal gwahanol.
- Annheg i rai defnyddwyr e.e. pobl gyda chlefyd Alzheimer.
- Nid yw'n annog pobl i gynilo ar gyfer henaint.

6.3 Byth ers inni ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn (2003) yng Nghymru, mae Gofal Personol am Ddim (fel cymorth i ymolchi, bwyta a symud) - ym maes gofal preswyl i ddechrau, ac yna gofal yn y cartref – wedi bod yn bwnc trafod cyson. Diffyg adnoddau yw'r prif faen tramgwydd hyd yma. Mae ymchwil Llywodraeth y Cynulliad yn awgrymu y byddai cyflwyno Gofal Personol am Ddim yng Nghymru yn costio tua £180 miliwn (ar sail prisiau 2005), a byddai'r ffigur hwn yn codi'n sylweddol dros y blynyddoedd gan fod cyfran uchel iawn o bobl hŷn yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y grŵp oedran dros 85 oed, a fydd wedi cynyddu traean erbyn 2021.

6.4 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi buddsoddi'n sylweddol i greu pecyn o fesurau amgen i hyrwyddo annibyniaeth, a lleihau'r baich o godi tâl am ofal cartref i bobl ar incwm isel. Er nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ailystyried mater Gofal Personol am Ddim ar hyn o bryd, gan nad yw'n fforddiadwy, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y mater.

Pwy sy'n talu am ofal ar hyn o bryd?

6.5 Mae'r egwyddor o rannu costau gofal rhwng y Llywodraeth, unigolion a'u teuluoedd yn fan cychwyn da i drafod y mater hwn. Yn sylfaenol, dylai'r system newydd:

- hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth;
- sicrhau bod pawb yn gallu derbyn gofal o'r radd flaenaf a bod pawb yn cael rhywfaint o gymorth gan y Llywodraeth, ond bod arian wedi'i neilltuo i'r rhai mwyaf anghenus yn bennaf;
- bod yn fforddiadwy a chynaliadwy i'r Llywodraeth, unigolion a theuluoedd;
- bod yn fwy teg a chyfartal.

Unigolion

6.6 Mae ymchwil ddiweddar gan yr Adran Iechyd yn dangos bod pobl yn fwy parod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o dalu am eu gofal cyn belled â'u bod yn sicr beth maen nhw'n talu amdano a pham, a beth fydd y Llywodraeth yn ei dalu.

6.7 Mae'r genhedlaeth o bobl sy'n ymddeol nawr yn gyfoethocach nag unrhyw genhedlaeth flaenorol. Yn 2005, roedd asedau pobl 70 oed, fel tai, pensiynau a chynilion, wedi cynyddu o £88,000 deng mlynedd ynghynt i tua £215,000 ar gyfartaledd. Yn 2004, roedd gan bobl dros 60 oed tua £932 biliwn mewn ecwiti ar eu cartrefi. Er hynny, mae hynny'n cuddio'r ffaith fod anghydraddoldebau mawr ymysg pobl hŷn: nid yw 32% ohonynt yn berchen ar eu cartref eu hunain. Mae nifer sylweddol o'r bobl iau sydd angen gofal hefyd ar incwm cymharol isel.

6.8 Mae llawer o bobl yn prynu eu gofal a chymorth yn uniongyrchol gan y sectorau preifat a gwirfoddol os yw'r awdurdod lleol wedi'u hasesu fel rhai sydd â digon o incwm ac asedau i allu fforddio talu'r costau'n llawn. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn cynllunio ar gyfer eu pensiwn a'u hetifeddiaeth, mae tystiolaeth yn dangos mai ychydig iawn sy'n gwneud hynny ar gyfer eu costau gofal neu'n paratoi ar eu cyfer trwy gyfrwng cynilion neu yswiriant. Mae'n bwysig trafod pa swyddogaeth y dylai neu y gallai'r Llywodraeth ei chwarae yn hyn o beth, er enghraifft trwy annog marchnadoedd neu ofyn i bobl baratoi ar gyfer costau gofal, er enghraifft trwy:

- gynlluniau cynilo;
- rhyddhau ecwiti;
- buddsoddi cyfandaliad; neu
- yswiriant preifat.

Teuluoedd

6.9 Yn aml, mae teuluoedd yn rhoi cryn dipyn o ofal anffurfiol (heb dâl) i'w perthnasau a hefyd yn cyfrannu trwy "daliadau atodol" tuag at lety preswyl drutach a gwasanaethau ychwanegol iddynt mewn cartrefi gofal. Bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Gofalwyr a'r ddeddfwriaeth ar hawliau gofalwyr a nodwyd yn Adran 4 yn chwarae rhan allweddol wrth gydnabod swyddogaeth hollbwysig teuluoedd a gofalwyr. Hoffem drafod unrhyw beth arall y dylid ei ystyried hefyd.

Llywodraeth

6.10 Bydd cyfrifoldeb bob amser ar y Llywodraeth i ddarparu "rhwyd ddiogelwch" fel bod pobl na allant fforddio gofal yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Darperir gwasanaethau cymdeithasol i bobl gydag incwm ac asedau isel, trwy dreth ganolog a'r dreth gyngor. Mae tua 70% o ofal ffurfiol yn cael ei ariannu fel hyn yn llawn neu'n rhannol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn darparu elfennau eraill o ofal a chymorth yn uniongyrchol, fel y lwfans gweini, budd-daliadau anabledd a rhai elfennau o wasanaethau cymorth tai. Mae hyn yn golygu bod costau gofal yn cael eu rhannu rhwng pob trethdalwr, fel bod llai o bobl yn wynebu'r baich o dalu'r holl gostau. Er hynny, bydd cymhareb y bobl sy'n gweithio â'r rhai sydd wedi ymddeol yn lleihau yn ystod y degawdau nesaf, tra bydd y galw am wasanaethau yn cynyddu. O'r herwydd, fe fydd hi'n anodd, os nad yn amhosibl, parhau â'r model fel ag y mae.

6.11 Bydd angen gwneud dewisiadau anodd ynglŷn â chydbwyso blaenoriaethau os bydd unrhyw system newydd yn cael ei chyflwyno. Does dim atebion cywir y naill ffordd na'r llall ac efallai y bydd nifer o ddulliau gwahanol yn ymarferol bosibl. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau ystyried pob ateb posibl i'r materion a amlinellir yma a'u trafod yn gwbl agored gyda defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, eu cynrychiolwyr, academyddion, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn ehangach.

Adran 7: Pa gwestiynau sydd angen eu trafod?

7.1 Un o'r heriau polisi mwyaf ein hoes yw datblygu a meithrin cytundeb newydd ynghylch ariannu gofal a chymorth yn y dyfodol – mae'n effeithio, neu fe fydd yn effeithio, ar y rhan fwyaf ohonom yng Nghymru. Mae nifer o wledydd eraill y byd yn mynd i'r afael â'r un materion. Mae hwn yn faes anodd a does dim atebion hawdd. Er hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau cynnal trafodaeth agored a chlir er mwyn llywio'r broses o ddatblygu dewisiadau polisi manylach.

7.2 Bydd pobl yn derbyn lefelau gwahanol o gymorth yn ôl faint o ofal a chymorth sydd eu hangen arnynt. Mae ffyrdd eraill o dargedu adnoddau serch hynny, a hoffem bennu rheolau clir a theg - wedi'u seilio ar werthoedd cyffredin - ynglŷn â phwy sy'n gymwys i gael cymorth ariannol gan drethi.

7.3 Rydym am drafod a yw hi'n deg rhoi'r un math o gymorth i bawb sydd ei angen, neu a ddylid rhoi mwy o gymorth i bobl sy'n methu â chynllunio a pharatoi ar gyfer eu gofal a'u cymorth eu hunain. Er enghraifft, a ddylem sicrhau cymorth ariannol i bobl sy'n anabl ers oedran iau, a disgwyl i bobl sydd â chostau gofal mwy rhagweladwy baratoi rhywfaint ar gyfer parhau i ofalu am eu hunain yn ddiweddarach mewn bywyd?

7.4 Mae llawer o benderfyniadau am wasanaethau yn cael eu gwneud yn lleol ar hyn o bryd, ac mae llawer o arian yn cael ei godi'n lleol hefyd. Fodd bynnag, mae hyn yn creu amrywiadau rhwng ardaloedd lleol. A ddylid cael system gyfartal i bawb, waeth ble maen nhw'n byw, neu a ddylai pobl leol benderfynu ar flaenoriaethau lleol ym maes gofal a chymorth? A ddylid codi arian yn lleol, neu a ddylid cael system genedlaethol?

7.5 Bydd angen sicrhau bod cymorth ar gael i'r bobl dlotaf mewn cymdeithas bob amser, ond efallai fod pobl yn ystyried prawf modd fel ffordd o gosbi'r rhai sydd wedi gweithio'n galed a chynllunio'u sefyllfa ariannol yn ofalus. Hoffem i bobl nodi beth yw'r cydbwysedd cywir yn eu barn nhw.

7.6 Dyma'r prif gwestiynau yr hoffem eu gofyn ar hyn o bryd:

Rhannu'r cyfrifoldeb am dalu am ofal.

Pwy ddylai gyfrannu mwy tuag at ofal yn y dyfodol?

Unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth
Teuluoedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth
Y gymdeithas gyfan.

Unigolion

Os byddwch angen gofal yn y dyfodol, a ddylech orfod talu amdano eich hun? Sut gall pawb baratoi ar gyfer talu'r costau hyn? Pa gyfraniad ddylai'r Llywodraeth ei wneud wrth helpu pobl i baratoi ar gyfer talu'r costau hyn?

Teuluoedd

Os byddwch angen gofal yn y dyfodol, a ddylid disgwyl i'ch teulu ofalu amdanoch neu dalu am eich gofal? Sut gall pawb baratoi i dalu costau o'r fath?

Faint o ofal y dylid disgwyl i deuluoedd ei roi? Beth yw'r ffordd orau y gall y Llywodraeth eu helpu?

Y gymdeithas gyfan

Os byddwch angen gofal yn y dyfodol, a ddylid disgwyl i'r gymdeithas gyfan dalu amdano? Sut fyddai'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei rannu rhwng y gymdeithas gyfan?

- a fyddai pawb yn gorfod cyfrannu mwy?
- a fyddai pobl hŷn wedi'u heithrio rhag cyfrannu?
- a fyddai pobl iau wedi'u heithrio rhag cyfrannu?
- beth am bobl ddi-waith neu'r rhai sy'n methu â gweithio?
- beth am bobl nad ydynt yn berchen ar eu cartrefi eu hunain?
- beth am swyddogaeth eich cyflogwr?
- beth am swyddogaeth sefydliadau gwirfoddol?

Pe bai'r system gyfredol yn cael ei diwygio, i ba gyfeiriad cyffredinol y dylid gwneud newidiadau?

- model yswiriant cymdeithasol (talu i gronfa ofal benodol gydol eich bywyd gwaith a'i defnyddio i dalu am wasanaethau gofal ffurfiol yn ddiweddarach yn eich bywyd neu er mwyn helpu aelodau'r teulu sy'n rhoi gofal anffurfiol);
- symleiddio'r trefniadau cyfredol, eu cysoni a'u gwneud yn fwy teg model cyfraniad preifat uwch;
- cyfuniad o'r rhain.

Pennu rheolau teg ar gyfer rhoi cymorth ariannol yn y dyfodol

Mae'n rhaid inni gael y cydbwysedd cywir ar dri mater er mwyn pennu rheolau clir a theg ar gyfer system cymorth ariannol fwy cynaliadwy

Lleol neu genedlaethol?
Gwahanol systemau ar gyfer gwahanol anghenion?
Mwy o gymorth i bobl ag incwm isel ac ychydig iawn o asedau?

Lleol neu genedlaethol?

Yn y dyfodol, ai llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol ddylai benderfynu pwy sydd â hawl i gael cymorth, a beth y mae hawl ganddynt ei gael?

Gwahanol systemau ar gyfer gwahanol anghenion

Yn y dyfodol, a ddylai pawb sydd angen gofal gael yr un faint o gymorth, neu a ddylai'r llywodraeth roi mwy o gymorth i bobl sy'n methu cynllunio a pharatoi ar gyfer

eu gofal a chymorth eu hunain (er enghraifft, pobl anabl neu bobl sydd wedi cael damwain neu salwch sydyn)?

Mwy o gymorth i bobl ag incwm isel ac ychydig iawn o asedau?

Yn y dyfodol, a ddylai pawb sydd angen cymorth gael yr un faint o gymorth, neu a ddylai'r llywodraeth roi fwy o gymorth i bobl ag incwm isel ac ychydig iawn o asedau?

Adran 8: Sut i ymateb a chyfrannu i'r broses ymgynghori hon

Beth nesaf?

Cynhelir rhaglen ymgynghori rhwng mis Rhagfyr 2008 a mis Mawrth 2009 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymysg rhanddeiliaid, defnyddwyr gofal a'r cyhoedd yn gyffredinol, a sbarduno trafodaethau ynglŷn â phrif egwyddorion a dewisiadau'r maes polisi hwn. Bydd y rhaglen yn cynnwys digwyddiadau i randdeiliaid a sefydlu grŵp cynghori i helpu i lywio'r broses fel ei bod yn gyfrwng priodol ac effeithiol o gael barn a chyfraniad rhanddeiliaid a dinasyddion, ac i roi sylwadau ar y cynigion polisi sy'n codi.

Bydd canlyniadau'r broses ymgynghori'n cael eu defnyddio i lywio Papur Gwyrdd i Gymru ar y dewisiadau ar gyfer newid y system o dalu am ofal.

Sut alla i ddweud fy nweud?

Gallwch roi sylwadau ar y materion allweddol mewn sawl ffordd gan 28 Chwefror 2009:

- Gwefan – mae'r holl wybodaeth i'w gweld yn http://www.payingforcareinwales.net. Mae'r wefan hon yn esbonio'r cwestiynau yr hoffem i chi fynegi barn arnynt ac yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau. Gallwch anfon eich sylwadau atom yn syth drwy'r wefan.

- E-bost/Ysgrifennu – gallwch hefyd anfon eich sylwadau trwy e-bostio payingforcare@wales.gsi.gov.uk neu ysgrifennu at y Tîm Talu am Ofal, Y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Am fwy o gopïau caled o'r ymgynghoriad e-bostiwch payingforcare@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch 02920 823096.

Efallai yr hoffech gyfrannu at y drafodaeth fel aelod o sefydliad neu grŵp buddiant. Ewch i http://www.payingforcareinwales.net am fwy o wybodaeth i randdeiliaid.

Sut fydd fy sylwadau'n cael eu defnyddio?

Dim ond i lywio cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Prydain i newid y system talu am ofal y byddwn yn defnyddio'ch sylwadau. Cyflwynir y cynlluniau hyn mewn Papurau Gwyrdd i Gymru a Lloegr yn 2009.

(Cynnig y Llywodraeth i wneud newidiadau i bolisi neu system o bwys sy'n destun ymgynghoriad yw'r Papur Gwyrdd. Mae fel arfer yn cael ei ddilyn gan Bapur Gwyn, sef cynnig i lunio deddfwriaeth newydd i roi'r newidiadau hyn ar waith.)

Am fwy o wybodaeth, darllenwch ein polisi preifatrwydd yn:

www.new.wales.gov.uk/consultation/healthsocialcare/?lang+en